

Cynhaliwyd cyfarfod Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru yn y Brif Neuadd, Coleg y Bedyddwyr, Heol Richmond, Caerdydd ar 24 Mai 2018.

Yn bresennol: Rheinallt Thomas (Llywydd); Parch Peter Dewi Richards (Cyn Lywydd); Parch Judith Morris; Parch Ian Morris; Parch Gethin Rhys; Parch Paul Rochester; Parch Debbie Hodge; Parch Irfon Roberts; Parch Ifan Roberts; Vaughan Salisbury; Parch Eirian Wyn; Steffan Wiliam (cyfieithydd); Helen Jones (Ysgrifennydd)

Derbyniwyd Ymddiheuriadau: Canon Aled Edwards; Parch Chris Gillham; Parch Aled Jones; Parch Gareth Morgan Jones; Parch Meirion Morris; Parch Ddr. Hugh Osgood; Parch Marcus Robinson; Parch Martin Spain; Parch Sally Thomas

1. Croeso: Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Llywydd. Croesawodd yn arbennig Peter Kennedy o adran addysg Llywodraeth Cymru. Roedd yn hapus gweld Peter Dewi Richards, Cyn Lywydd yn bresennol. Mynegodd bryder ynghylch nifer o bobl yn ymddiheurio gan fod gwrthdaro gyda chyfarfodydd yr Eglwysi cyfamodol. Gobeithiai byddai trefnwyr cyfarfodydd yn edrych ar ddyddiaduron yn y dyfodol. Mae dyddiadau C E Rh C yn cael eu trefnu trwy Sasha Perriam flwyddyn ymlaen llaw. Cyhoeddwyd dyddiadau Cyngor Eglwysi Rhyddion am 2019 ar ddiwedd y cyfarfod: sef dydd Iau 23 Mai a 14 Tachwedd. Atgoffodd yr Aelodau fod ffurflenni Rheoliadau Data i gael eu harwyddo cyn diwedd y cyfarfod os na wnaed hynny eisioes.

2. Gweddi: Gweddiwyd ar ddechrau'r cyfarfod gan y Llywydd.

3. Cofnodion: Derbyniwyd y Cofnodion gan y Cyngor. Cynigiwyd gan Vaughan Salisbury ac eiliwyd gan Ian Morris.

4a. Materion yn codi: Medal Gee: Bydd gwasanaeth ar 29 Medi 2018 i gyflwyno Medalau'r Gogledd. Bydd cyflwyno medalau Gogledd a De yn cychwyn yn 2019 gyda Aberystwyth fel llinell rhannu rhwng Gogledd a De. Cafwyd cyfarfod yn ddiweddar gyda Isoline Greenhalgh yn llywyddu. Trosglwyddwyd gofal enwebiad at Cyngor Ysgolion Sul dan ofal Aled Davies. Bydd arian o'r canghennau lleol o Cyngor Eglwysi Rhyddion yn cael eu trosglwyddo at Drysorydd CERhC – Martin Spain ac nid at y Cyngor Ysgolion Sul.

4b. Cyfansoddiad: Derbyniwyd y newidiadau syml – bod Ysgrifennydd yn bodoli a newid yn rheolaeth De a Gogledd. Bydd rhaid hysbysu Comisiwn Elusennau am hyn. Yn y dyfodol gellid derbyn hyd at ddau enwebiad yn flynyddol o'r Gogledd a'r De i gyfarfodydd CERhC. Enwebwyd Irfon Roberts ac Eirian Wyn i gynrychioli'r De a Nerys Siddall i'r Gogledd.

5. Cwricwlwm addysg Grefyddol/ Dyniaethau

Croesawyd a chyflwynwyd Peter Kennedy i'r cyfarfod. Swyddog ydyw gyda Manon Jones arbenigwraig mewn Addysg Grefyddol yn adran Addysg y Cynulliad. Dechreuodd drwy ddweud fod adroddiad Addysg yr Athro Donaldson angen ei ddiweddarau. Soniodd mai dysgu strategaethau sgiliau bywyd oedd bwriad y Cwricwlwm. Mae Adran Addysg mewn cysylltiad gyda Cymdeithas CYSAGau Cymru a gyflwynodd bapur Tachwedd 2017 ac ystyriwyd iddo fod yn gymorth i gynig ffordd ymlaen. Ni fydd y Llywodraeth yn pennu manylebau i'r Awdurdodau Lleol.

Cyflwynodd Peter Kennedy ddogfen drafft sylweddol ar y Meysydd Dysgu i'r Dyniaethau a gellir cael copi o'r ddogfen gyflawn yn Gymraeg drwy e bost gan Helen Jones (rhys.helen.jones@btinternet.com). Nodir y chwe maes a disgrifiad cryno ohonynt isod ond mae 5 colofn o fanylion ar gyfer pob un o'r 6 maes yn y ddogfen gyflawn:

Cynigion Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau

Datganiad yn amlinellu sut mae'r Maes Dysgu a Phrofiad yn cefnogi'r 4 diben

Mae'r Dyniaethau yn astudiaeth o'r profiad dynol yn y gorffennol a'r presennol. Mae'n cynnwys ffactorau a chysyniadau hanesyddol, daearyddol, crefyddol, gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol.

Drwy ystyried 'beth sy'n bwysig' am y dyniaethau, bydd dysgwyr yn astudio'r gorffennol a'r presennol, yn dychmygu dyfodol posibl ac yn dysgu am bobl, lle, amser a chredoau er mwyn dod yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog. Byddant yn meithrin, yn cyfleu ac yn cymhwyso'n effeithiol wybodaeth gadarn am gysyniadau hanesyddol, gwleidyddol, economaidd, crefyddol a chymdeithasol, yn ogystal â dealltwriaeth ohonynt.

Bydd dysgwyr yn datblygu amrywiaeth o sgiliau a rhinweddau er mwyn dod yn gyfranwyr mentrus, creadigol a dinasyddion cyfrifol, gan wella bywydau pobl yn eu cymuned leol, yng Nghymru ac yn y byd ehangach. Byddant yn cyfrannu'n gadarnhaol at y rhain ac yn ymgysylltu'n feirniadol â materion lleol, cenedlaethol a byd-eang.

Drwy deall a pharchu gwahanol gredoau a deall sut i arfer eu hawliau a'u cyfrifoldebau democrataidd, bydd dysgwyr yn dod yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus. Byddant yn ystyried, yn archwilio ac yn gwneud dewisiadau gwybodus ynghylch cynaliadwyedd ac effaith eu gweithredoedd. Byddant yn dysgu am hawliau, gwerthoedd, moeseg, credoau ac athroniaeth.

Drwy arddel eu barn bersonol ar faterion yn ymwneud â ffydd, ysbrydolrwydd, cynaliadwyedd a chynhwysiant cymdeithasol, byddant yn dod yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas. Bydd archwilio'u hamgylchedd yn eu helpu i ddatblygu eu llesiant a'u hymdeimlad o le.

Datganiadau Yr Hyn sy'n Bwysig a'r sail resymegol drostynt

1. Mae ein byd naturiol yn amrywiol ac yn ddynamig, ac mae prosesau ffisegol a gweithredoedd dynol yn dylanwadu arno.

Mae astudio'r dyniaethau yn helpu dysgwyr i nodi, deall a dadansoddi natur ddynamig Cymru a'r byd. Gall credoau, arferion, moeseg ac athroniaethau amrywiol ddylanwadu ar gyfrifoldeb dynol dros ein byd naturiol. Mae arloesedd a datblygiadau economaidd a thechnolegol wedi llywio ein byd naturiol, ac maent yn parhau i wneud hynny. Mae hefyd yn bwysig deall sut y gall gweithredoedd dynol effeithio ar yr amgylchedd naturiol, a sut y gall yr amgylchedd naturiol ddylanwadu ar weithredoedd dynol. Mae prosesau ffisegol yn cael effaith fawr ar leoedd, amgylcheddau, tirweddau a bywydau pobl. Mae gwerthfawrogi'r patrymau cymhleth hyn a chysylltiadau rhwng y gorffennol, y presennol a'r dyfodol yn bwysig er mwyn deall achosion a chanlyniadau newid.

2. Mae ymddygiad a chredoau dynol wedi dylanwadu ar gymdeithas ac wedi'i llywio

Yn y gorffennol, cafodd cymdeithasau eu ffurfio a'u dylanwadu gan unigolion, cymunedau, ffactorau gwleidyddol ac economaidd, gwerthoedd diwylliannol a chredoau ac arferion crefyddol. Mae cymdeithasau wedi profi parhad a newid sydd wedi effeithio ar fywydau pobl, yng Nghymru a'r byd yn ehangach. Mae achosion a chanlyniadau rhyngweithiadau dynol yn y gorffennol wedi llywio'r byd a'r ffordd y mae wedi datblygu, ar adegau gwahanol ac mewn lleoedd gwahanol. Mae i archwilio rhyngweithiadau dynol y gorffennol werth cynhenid.

3. Mae dynoliaeth yn wynebu llawer o heriau a chyfleoedd sy'n gofyn am ymatebion hyddysg ac ystyriol.

Mae deall heriau a chyfleoedd lleol, cenedlaethol a byd-eang cyfredol yn hanfodol er mwyn bod yn ddinesydd moesegol a hyddysg. Dylai dysgwyr ffurfio barn wybodus ar yr heriau a'r chyfleoedd gwleidyddol, economaidd, technolegol, cymdeithasol, crefyddol, diwylliannol ac amgylcheddol y mae pobl yng Nghymru a'r byd ehangach yn eu hwynebu. Mae dysgwyr yn deall y gall credoau, profiadau ac amgylchiadau ddylanwadu ar ymatebion amrywiol eu hunain ac eraill. Drwy ymgysylltu â chwestiynau sylfaenol ac athronyddol am yr heriau a'r chyfleoedd sy'n wynebu dynol ryw, bydd dysgwyr yn datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau i ffurfio a chyfiawnhau eu barn eu hunain a deall gwerthoedd, credoau a safbwyntiau.

4. Mae pobl yn ystyried eu profiadau o ddynol ryw drwy amrywiaeth o lensys.

Mae'r dyniaethau yn cynnig amrywiaeth o lensys i ddysgwyr ddatblygu dealltwriaeth o'r profiad dynol drwyddynt. Mae'r lensys hyn yn deillio o ddealltwriaeth gynyddol o'r disgyblaethau sydd wrth wraidd y Dyniaethau, a'r ffordd y maent yn cysylltu â'i gilydd. Maent yn rhoi dealltwriaeth i ddysgwyr o'r ffordd y mae eraill yn llunio naratifau er mwyn cofnodi a chynrychioli'r profiad dynol a sut i ddeall, dehongli a chynrychioli profiad dynol ryw eu hunain. Mae dysgwyr yn gwerthfawrogi sut a pham y caiff dehongliadau a chynrychioliadau eu llunio er mwyn cwestiynau a gwerthuso eu dilysrwydd mewn ffordd feirniadol.

5. Mae'r broses ymholi yn galluogi pobl i wneud synnwyr o'r byd ac ymgysylltu ag ef.

Mae astudio'r dyniaethau yn datblygu sgiliau ymholi disgyblaethol. Mae dysgwyr yn gofyn cwestiynau ac yn datblygu rhagdybiaethau ym mhob rhan o'r dyniaethau. Drwy gasglu, gwerthuso a dadansoddi tystiolaeth o amrywiaeth o ffynonellau, gall dysgwyr ddehongli haenau o ystyr a chysylltu gwybodaeth er mwyn cael gafael ar wybodaeth berthnasol i lywio eu dealltwriaeth. Drwy feddwl yn feirniadol ac yn fyfyril am y dystiolaeth a ddadansoddwyd ganddynt, maent yn dysgu i lunio barn ac ymatebion cydlynus wedi'u cefnogi. Mae dysgwyr yn gwerthuso'n feirniadol effeithiolrwydd y broses ymholi a ddilynwyd ac i ba raddau y mae wedi'u helpu i wneud synnwyr o'r byd ac ymgysylltu ag ef.

6. Dylai dinasyddion fod yn foesebol, yn hyddysg ac ymgysylltu â bywyd a gwaith

Mae'r dyniaethau yn annog dysgwyr i feddwl yn feiriadol am ddulliau ymgysylltu moesebol, darbodus, entrepreneuriaid neu gymdeithasol yn eu cymunedau. Bydd dysgwyr yn deall eu hawliau a'u cyfrifoldebau fel dinasyddion moesebol, a phwysigrwydd sicrhau eu bod yn parchu hawliau eraill. Mae dysgwyr yn deall cyfrifoldebau cyfreithiol a moesol unigolion a chanlyniadau methu â gweithredu'n unol â hynny. Bydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o hunaniaeth a hunanymwybyddiaeth ac maent yn ymwybodol o'u rôl eu hunain mewn cymdeithas a'r dylanwadau crefyddol, moesol a moesebol ar fywydau pobl.

Cafwyd trafodaeth fywiog a deallus ac mae'r hyn sy'n dilyn yn adlewyrchiad byr o awr gyfan o drin a thrafod. Nodwyd y bydd Addysg Grefyddol yn parhau i fod yn bwnc statudol. Ardal dysgu fydd Addysg Grefyddol, Hanes, Daearyddiaeth, Economeg ac Astudiaethau Busnes. Bydd angen astudio'r pynciau yn unigol i TGAU. Holwyd beth oedd cyfyngiadau ysgolion gwirfoddol crefyddol fel y Methodistiaid, Yr Eglwys yng Nghymru a'r Pabyddol. Byddent yn rhoi pwyslais ar ei safbwyntiau ond bod angen dysgu perthnasaedd crefydd i fywyd gan ein bod yn byw mewn Cymdeithas ethnig amrywiol. Mae'n hanfodol addysgu disgyblion i fod yn aelodau gwybodus cymdeithas. Pwysleisiodd P.K. na fyddai Addysg Grefyddol yn cael ei roi naill ochr na'i anghofio.

Soniwyd bod angen arbenigedd yn y pwnc a chefnogaeth i athrawon. Nodwyd bod y pwnc yn cael ei ddysgu gan athrawon heb unrhyw arbenigedd ac wrth hynny yn gwneud yn fach o'r pwnc. Mynegwyd bydd rhaid hyfforddi athrawon i'r gofynion. Hyfforddiant - does dim digon o athrawon yn cael ei ricriwtio mewn i'r proffesiwn. Mae gan Llywodraeth Cymru a CYSAG gynlluniau ar ddyfodol hyfforddi athrawon gan nodi bydd grwpiau o ysgolion yn arloesi'r cynlluniau newydd ac yn gweld lle bydd angen newid ac ail strwythuro'r Cwricwlwm.

Gofynnwyd a fyddai amser penodol i wersi Addysg Grefyddol yn y dyfodol. Atebwyd na fyddai amser penodol fel y cyfryw. Codwyd y cwestiwn pwy fyddai yn monitro'r gwersi? Atebwyd mai'r Llywodraeth leol ac Arolygwyr Estyn fyddai. Holwyd a oedd rhywun yn monitro ar hyn o bryd. Does dim neb ac nid oes ymgynghorwyr Addysg Grefyddol bellach. Soniwyd bod cyfyngiadau ar amserlenni ysgolion a chynllun y Cwricwlwm newydd yw bod yn llai penodol. Ni fydd unrhyw bwnc yn cael amser penodol yn y dyfodol.

Mae traddodiad crefyddol yn bodoli ym Mhrydain ac mae Cristnogaeth dal yn berthnasol. Bellach mae Dyneiddwyr yn medru cael lle ar fwrdd CYSAG ond Cristnogaeth ydy prif grefydd Prydain. Bydd diffiniad o Addysg Grefyddol yn newid ychydig i fod yn fwy llydan ac i ddisgyblion sylweddoli fod angen addysg i ehangu gorwelion ffordd o fyw ac i ddangos perthnasedd hyn ar draws y pynciau.

Holwyd a fyddai Ysgol Islamaidd yn dysgu am Gristnogaeth? Byddai rhaid iddynt pe baent yn ysgol wladwriaeth. Does dim un ym Mhrydain ar hyn o bryd.

Gofynnwyd am ddarpariaeth deunyddiau a fyddai'n anghenrheidiol yn ddwyieithog i'r plant a'r athrawon. Cafwyd sicrwydd bod y gwaith paratoi ar y gweill. Pryderwyd am lyfrau tebyg i'r lefel "A" Addysg Grefyddol presennol yn cael ei gynhyrchu 2 flynedd wedi cychwyn y manyleb.

Wrth orffen mynegodd Peter mai gwaith anorffenedig ydy'r ddogfen bresennol. Byddai yn falch derbyn adborth oddi wrth y Cyngor. Bydd papur gwyn yn cael ei gyhoeddi erbyn diwedd y flwyddyn. Bydd cyfnod o ymgynghori ffurfiol gyda grwpiau unigol, yr eglwysi a'r llywodraeth leol. Bydd yr adran yn ceisio ymateb i bawb sy'n cysylltu.

PWYNT GWEITHREDU: Ebst Peter Kennedy ydy: PeterRay.Kennedy@gov.wales

PWYNT GWEITHREDU: Bydd Rheinallt a Vaughan yn crynhoi ymateb i adroddiad 24 Mai. Bydd enwadau yn cael copi ohono. Bydd adroddiad yn mynd i'r Papurau Enwadol/4 tudalen ac i Peter Kennedy. Bydd yr ymateb yn swyddogol. Bydd Rheinallt, Vaughan a Helen yn cofnodi hyn yn swyddogol

6. Adroddiad a Digwyddiadau'r Llywydd

Roedd rhestr digwyddiadau'r Llywydd wedi ei atodi gyda phapurau arall y cyfarfod.

Adroddodd y Llywydd fod Parch Geraint Tudur yn ymddeol fel Ysgrifennydd Cyffredinol Annibynwyr Cymru ddiwedd mis Awst. Diolchwyd am ei wasanaeth i'r Cyngor a dymunwyd yn dda iddo yn y dyfodol. Edrychwn ymlaen i groesawu ei olynydd yn ein cyfarfodydd yn y dyfodol. Clywyd yn ystod y cyfarfod mai'r Parch Dyfrig Rees, Pen y bont a gafodd ei benodi fel Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb Annibynwyr Cymru.

PWYNT GWEITHREDU Ysgrifennydd i ysgrifennu at Parch Geraint Tudur i ddymuno'n dda iddo yn y dyfodol ac hefyd i longyfarch yr Ysgrifennydd cyffredinol newydd – Parch Dyfrig Rees.

Cafwyd y Newyddion yn ystod y dydd mai'r Parch Beti Wyn James fydd darpar Is-Lywydd Undeb Annibynwyr Cymru. Bydd yr Ysgrifennydd yn ei llongyfarch hi'n yr un modd.

7. Adroddiad Cytûn

Cafodd dau gylch lythyr eu dosbarthu – Mawrth a Mai. Nodwyd bod Adroddiadau sylweddol gan Gethin Rhys. Mynegodd y Llywydd ar ran pawb ein bod yn falch o'u derbyn. Holwyd oni ddylem ymgyrchu i gael gwared o'r Banciau bwyd yn lle ymfalchio ein bod yn cyfrannu iddynt yn wythnosol. Sefyllfa warthus ydy hyn. Mynegwyd bod ymgyrch ar gael "End Hunger" a gefnogir gan nifer o eglwysi. Mae hwnnw wedi canolbwyntio yn y lle cyntaf ar ddarparu bwyd dros y gwyliau i blant fyddai fel arall yn derbyn cinio ysgol am ddim. Mae darpariaeth ar gael yng Nghymru i roi cinio dros wyliau'r ysgol i blant ysgol gan Llywodraeth Cymru. Mae'r egwyddor wedi ei sefydlu yng Nghymru, felly ni fu'r ymgyrch yn weithredol yma. Wrth i "End Hunger" droi ei sylw at faterion eraill fe fydd cyfle i eglwysi yng Nghymru gefnogi'r ymgyrch.

8. Darpariaeth Diwinyddol ** Gweler nodiadau a atodwyd erbyn y cyfarfod

Nodwyd mai Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant sydd yn cynnig y ddarpariaeth. Bydd Coleg y Bedyddwyr, Caerdydd yn cydweithio gyda Parch Ddr Densil Morgan i gynnig un cwrs y flwyddyn yn y Gymraeg. Mae Coleg yr Annibynwyr yn cydweithio gydag enwadau arall fel Y Coleg Gwyn a'r Presbyteriaid i baratoi cyrsiau yn y Gymraeg. Arholwr allanol y Bwrdd Academaidd ydy Dr. R. Pope. Mae Parch Jeremy Luff o Padarn Sant wedi cydnabod mai Saesneg yn unig ydy'r ddarpariaeth yno. Bydd yn gadael ei swydd ddiwedd tymor ac ni fydd dim yn debygol o newid.

Mae Kirsty Williams yn awyddus iawn i gwrdd ag anghenion Addysg Cymru yn y Llywodraeth ac mae'r drws ar agor i drafod ariannu er mwyn darparu pynciau yn y Gymraeg. Mae diffyg Myfyrwyr Cymraeg Diwinyddol yn faen tramgwydd. Does dim llawer o siaradwyr Cymraeg yn ymgeisio am y weinidogaeth a rhai am astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn llai fyth.

Awgrymwyd gofyn i'r personau sy'n gyfrifol am hyfforddiant diwinyddol yn yr enwadau I nodi yr hyn y maent yn ddarparu. Byddai'n fantais cael y wybodaeth i'w ddosbarthu cyn i Dr Catrin Haf Williams gael gwahoddiad i'n cyfarfod nesaf. Derbyniwyd fod gwahaniaeth rhwng dilyn cwrs Hyfforddiant a Chwrs Diwinyddiaeth.

PWYNT GWEITHREDU: Awgrymwyd gofyn i Dr Catrin Haf Williams ddod i gyfarfod Tachwedd i drafod y ddarpariaeth.

9. Siaradwr gwadd – Wynford Ellis Owen – Ymgynghorydd Cwnsela Cynnal

Croesawodd Rheinalt Wynford Ellis Owen i'n cyfarfod. Llynedd ymddeolodd o Ystafell Fyw wedi bod yn Brif weithredwr am 5 mlynedd. Bellach mae e'n gweithio deuddydd yr wythnos gyda Cynnal. Mae Wynford yn gyfrifol am gwnsela Gweinidogion o bob enwad a'u teuluoedd / meddygon/ gamblwyr. Esboniodd ei fod yn Ysgrifennydd grwp Trawsbleidiol Y Cynulliad Cenedlaethol ar gamblo. Gwasaneth yw Cynnal sy'n dangos fod angen ymwybyddiaeth o'r ysbrydol ar bob un ohonom Mae **Cynnal** yn cymryd golwg hollataidd o'r unigolyn fel corff, meddwl ac ysbryd. Maent yn cydnabod dimensiwn ysbrydol bywyd a phan fydd yn briodol, byddant yn cyfeirio ymlaen at eraill a all gynnig Cyngor ysbrydol.

Mae gwreiddiau Cynnal mewn cymunedau ffydd yng Nghymru. Maent yn ddyddiol yn darparu atebion ysbrydol i broblemau ac yn delio'n ymarferol â'r holl bethau anghysurus mae'r problemau hyn yn eu hachosi ym mywyd beunyddiol. Holodd a oedd ymwybyddiaeth gan bobl bod rhywbeth ar goll yn eu bywyd Esboniodd mai ateb pawb yw chwilio am nefoedd – o ryw fath – bod pawb yn chwilio am ddihangfa. Yn anffodus, y di-freintiedig, y tlawd, a'r anghenus yn ein Cymdeithas sy'n cael eu denu i geisio ennill arian drwy gamblo a gwerthu cyffuriau. Gwaith sy'n targedu plant a phobl ifanc am ffordd gyflym i wneud eu bywyd yn well.

Dwedodd bod angen ar bob person adnabod eu hunain. Mae gan bawb wendidau a chryfderau yn eu personoliaeth ac mae pawb yn araf i wynebu a derbyn eu amherffeithrwydd. Mae credoau craidd o'n babandod yn ddylanwad ar sut welwn y byd. Pwysleisiodd bod tlodi ysbrydol yn wraidd gofidiau a phroblemau iselder. Mae pobl yn colli'r angen

am Dduw a'i fendith. Mae pobl yn pwyso ar adnoddau ei hunain i geisio cael ffordd ffug i gael datrysiaid cyflym i wynebu'r hyn sy ar goll yn eu bywyd. Mae hyn yn arwain i'r ardeggwr/ person ifanc chwilio am ffordd amgen i gael teimlad o berthyn heb feddwl am ganlyniad y weithred. Esboniodd bod pedair ffordd yn dangos trawma person mewn bywyd – Geni – Tyfu'n Oedolyn - Personoliaeth ffug – Marwolaeth. Gorffennodd drwy ddweud mai taith hunan adnabyddiaeth yw bywyd ac mae gan rai broblem nad ydynt yn gallu amgyffred yn llawn eu cyflwr fod ganddynt enaid ysbrydol sy am wybod ac adnabod Duw eu Tad.

10. Caplaniaeth mewn ysbytai – Parch. Debbie Hodge

Cyflwynwyd a chroesawyd Debbie i'r cyfarfod gan Rheinallt. Mae Debbie'n Ysgrifennydd Caplaniaeth Gofal iechyd – "Healthcare Chaplaincy" ac yn gweithio yn genedlaethol dros y Cyngor Eglwysi Rhyddion ynghyd â chyd destun aml-ffydd. Mae hi'n gofalu am gofrestr Caplaniaid, ac yn trefnu cyrsiau a seminarau i Gaplaniaid a Chaplaniaid gwirfoddol. Mae hi'n rheoli llawer o gynlluniau peilot sy'n cael eu cefnogi gan NHS Lloegr. Mae'r weithgaredd yn cefnogi gofal ysbrydol, bugeiliol a chrefyddol mewn ysbytai a mannau gofal/ meddygfau arall yn Lloegr.

Cychwynodd drwy sôn fod caplaniaethau wedi newid llawer yn ystod y 5 mlynedd diwethaf. Hyd at 2012 Adran Iechyd oedd yn arfer gweinyddu caplaniaid. Gyda newid yn y ddeddf Cyfartalu yn 2013 newidiwyd y gwasanaeth a ddarparwyd o fewn ysbytai. Daeth gofal Dyneiddiol, Aml ffydd a Christnogol yn gyfartal yn ein hysbytai.

Gwaith y caplan ydy rhoi gofal ysbrydol i'r gymuned yn ein hysbytai ac wedi'r claf cael ei ollwng i'w gartref. Mae'r caplaniaid yn gwasanaethu fel rhan o dîm aml ddisgyblaeth i ddarparu gofal holistig i gleifion a'r rhai sy'n agos atynt. Mae cefnogaeth i Gristnogion, i bobl o ffydd arall, dyneiddwyr, di-gred o fewn Iechyd Cenedlaethol Lloegr. Eglurodd bod angen ystyr, gwerth, cefnogaeth ysbrydol, gweddi, sacrament neu gwrandawr sensitif i roi ystyr i'r gofid y cleifion a'r gweithiwr iechyd. Pwysleisiodd pwysigrwydd apwyntio Caplan cywir i'r gofal iechyd – rhaid cerdded ffiniau ffydd.

Er y gwerthfawrogiad am y wybodaeth am beth sy'n digwydd yn Lloegr holwyd am ddarpariaeth yng Nghymru dros y 6 Bwrdd Iechyd sy wedi eu Datganoli. Awgrymodd Debbie anfon gair at y Prif Gaplaniaid yn Abertawe a Chaerdydd i'w holi am eu darpariaeth bugeiliol yng Nghymru, i'r siaradwyr Cymraeg ac yn arbennig yr henoed. Dylai'r chwe phrif Gaplan gwrdd ag anghenion y boblogaeth ymhob ardal yng Nghymru. Awrymodd y byddai hi'n gweithio gyda Gethin wrth gysylltu gyda'r caplaniaid i ofyn cwestiynau fel ymarfer darganfod ffeithiau ar ran C E Rh C.

Diolchwyd i Debbie yn gynnes iawn gan Rheinallt.

PWYNT GWEITHREDU: Gethin Rhys i ysgrifennu at y Byrddau Iechyd i geisio cael darlun cliriach o sefyllfa Cymru

11. Adroddiadau

a) Addysg - Anfonwyd ymlaen Adroddiadau cyn y cyfarfod.

Codwyd y pwyntiau canlynol:

1. Addysgu Athrawon yfory – Diwygio mawr yn digwydd. Bydd pwyllgor Plant a phobl ifanc at addysg yn monitro.
2. Estyn – Ystyried dulliannau a gafwyd. Bydd cyfnod Sylfaen at addysg bellah. Bydd newid yn nhrefn arolygu – ffynhonell o Lywodraeth Cymru.
3. CYSAGau – llyfr wedi ei gyhoeddi a phob ysgol wedi cael copi.
4. Adroddiad Joseph Champion – darn mwyaf o ddeddfwriaeth mae Cynulliad Cymru wedi gorfod trin a thrafod.
5. Côt Ymddwyn ymweliadau ag Ysgol – Bydd yn cael ei gyflwyno i'r Gymanfa Gyffredinol eleni. Dogfen yw yn gosod canllawiau i unigolion/grwpiau wrth ymweld ag ysgolion. Bydd yn ddefnyddiol e.e. i tîm "Agor y Llyfr."
6. CYSAGau – Mae'r grwp wedi gorfod derbyn gall dyneiddwyr ymaelodi - rhesymau hawliau sifil sy'n gefndir i hyn. Rhan o grwp "A" ydy'r dyneiddwyr a bydd rhaid gwneud cais i'r awdurdod lleol sy'n penderfynu a gânt sedd yn y grwp. Mae llythyr Kirsty Williams yn esbonio hyn yn glir. Does dim digon o niferoedd mewn ardal i ganiatau'r dyneiddwyr i gael llais pwerus.

Diolchwyd i Gethin am ei waith gyda CYSAGau – “Humanities and Areas of Learning.”

7a. Bydd angen i’r C.E.Rh. C. drafod “Life in all its fullness” – er yn amherthnasol i ni yng Nghymru. Mae angen ymateb i’r ddogfen. Oes angen cyfieithu a/neu cynnig addasu’r dogfennau? Cost tua £1,500. am 20,000 o eiriau.

Gwnaed sylw fod addysg yng Nghymru wedi dylanwadu ar eglwysi yn Lloegr ac yn hanes y ddwy wlad fod Cymry wedi dylanwadu’n arloesol ym myd addysg.

Awgrymwyd byddai C.E.RH.C yn cael mewnbwn i drafodaethau papurau addysg yn gynharach yn y dyfodol a chyn gofyn am ddogfennau.

PWYNT GWEITHREDU: Vaughan a Rheinallt i drafod – A oes diddordeb i addasu hwn?

PWYNT GWEITHREDU: i. Gofyn i’r 4 enwad ystyried y dogfennau ii. roi cyfraniad ariannol i gael copiau Cymraeg iii. Grwp C.E.Rh. C. wneud cyfraniad yn yr un modd.

b. “Reforming Christianity” – Parents, Communities and families – dogfen arall fydd yn barod 12 Mehefin. Soniwyd bydd yr un broblem o addasu a chyfieithu’n codi. Awgrymwyd rhoi’r cynnwys ar wefan yn hytrach nag argraffu. Awgrymwyd gofyn i Bethan James NAFRE am gymorth.

Bydd cyfarfod CCYSAGauC ar Ynys Môn 6ed Gorffennf.

b) Enwadau

Presbyteriaid – Mae £200,000 wedi trosglwyddo at Corwynt Cariad. Mae’r Llywydd wedi mynychu 2 Sasiwn – De a Gogledd yn ystod y mis. Bydd y Gymanfa gyffredinol yn cyfarfod yn Wrecsam yng Nghorffennaf.

Bedyddwyr – Mae Helen Wyn nôl yn y gwaith ar ôl cyfnod o salwch. Mae Christian Williams oedd wedi cyflenwi dros gyfnod salwch bellach yn edrych ar ôl Canllawiau Rheoliadau Amddiffyn Data.

Gobeithir bydd Tîm i Gymru erbyn mis Medi. Bydd y lleoliad nesaf yn y Gogledd. Mae un intern yn barod wedi ei ddewis.

Mae 6 pherson wedi bod i Nepal ar daith gyda’r Cymdeithas Genhadol – BMS.

Bydd y gynhadledd Flynyddol ym mis Mehefin. Mae eglwysi yn gwynebu cyfleoedd anodd ond heriol

Prosiect Tonteg – Mae’r Gorfforaeth wedi gweld yn dda i gefnogi John Birch a’i weledigaeth o Gymuned Cenhadol. Byddant yn benthycu arian iddo brynu tŷ yn y pentref.

Methodistiaid – Mae Parch Jennie Hurd wedi cael ei ail apwyntio am 5 mlynedd pellach fel Cyfarwyddwr y Methodistiaid. Mae Synod Cymru (Cymraeg a Saesneg) bellach yn gobeithio ymuno yn un adran. Bydd cyfle i’r Cymry Cymraeg sy’n addoli yn uniaith Saesneg i ddatblygu gwaith Cymraeg yn eu heglwysi. Mae’r drafodaeth yn mynd i “Wales Synod” ac mae’r amserlen wedi ei threfnu. Mae’r Methodistiaid am ehangu gwaith Diacon i ganolbwyntio ar ofal bugeiliol o fewn y gymuned. Bydd y Presbyter yn gweithio yn y capel. Mae cylchdaith Penfro a Chaerfyrddin wedi ymuno a byddant yn apwyntio Diacon i weithio yn yr ardal i ddatblygu’r gwaith yn ddwyieithog.

Annibynwyr - Bydd Parch Geraint Tudur yn ymddeol fel Ysgrifennydd Cyffredinol Annibynwyr Cymru ddiwedd mis Awst. Clywyd yn ystod y cyfarfod mai’r Parch Dyfrig Rees, Pen y bont a gafodd ei benodi fel olynnydd. Dymunwyd yn dda i’r ddau. Parch Beti Wyn James fydd darpar Is-Lywydd Undeb Annibynwyr Cymru.

c) Trysorydd- Martin Spain.

Derbyniwyd adroddiad y Trysorydd gyda diolch. Mae Trysorydd Cyngor Eglwysi Rhyddion Adran y Golgedd wedi trosglwyddo £5,325.47 i goffrau Cyngor E.RH C. Bydd arian Cyngor Adran y De yn cael eu trosglwyddo’n fuan i ofal Irfon i ddechrau. Gofynnwyd i ni gofio am Vivian Williams yn ein gweddiau. Gofynnodd Martin i bawb sy â chostau i’w ehostio gyda’i manylion cyfrif Banc er mwyn iddo eu trosglwyddo i’w cyfrif.

12. Adroddiad CERH – Parch Paul Rochester

Coesawodd Rheinallt Paul i'n cyfarfod. Esboniodd ei fod yn gweithio fel rhan o grwp llywio ar Gomisiwn "Church and Social Cohesion" Mae cyd weithio peilot ar hwn yn Bolton. Mae holiaduron ar waith a'i angen i'w gyflwyno i THEOS. Mae papur gwyrdd ar integreiddio a chydlynid ar waith oddi wrth y Llywodraeth. Mae calonogi'r eglwysi i gymryd rhan yn gymorth i'r Llywodraeth yn Lloegr. Mae gofal Cymdeithas ac integreiddio wedi ei ddatganoli yng Nghymru.

Mae dau argymhelliad wedi ei wneud: i. tynhau cyfraith mewnfudo. ii. newid cyfraith priodas – mynd i swyddfa gofrestru cyn cael gwasanaeth crefyddol - na fyddai'n bosibl i briodasau gael eu cofrestru yn gyfreithiol mewn addoldy.

Carchardai - Mae'r Welcome Directory yn parhau. Mae'r eglwysi'n araf i groesawu cyn garcharorion. Mae FCG yn edrych ar ffyrdd i gynorthwyo eglwysi i roi mwy o gymorth. Mae arian ar gael i ricriwtio pobl fyddai gallu cynorthwyo.

Mae Mike Cavannah HMPPS prif Caplan Carchardai yn ymddeol. Mae hysbyseb am y swydd wedi ei chyhoeddi. Yn draddodiadol o Eglwys Loegr bydd y Prif Gaplan newydd. Bydd Bob Wilson, Ysgrifennydd Carchar yn cynghori ar hyn.

13. UFA

Diolchiadwyd i'r gwestai a fynychodd y cyfarfod. Gofynnwyd am lai o faterion ar Agenda yn y dyfodol.

Diolchwyd hefyd yn wresog i Helen am gofnodi a threfnu bwyd ac i Steffan am gyfieithu.

NODWYD cyfarfodydd - 23 Mai a 14 Tachwedd 2019 yng Ngholeg Y Bedyddwyr, Heol Richmond

14. Y Fendith - Rhannwyd y gras.

Gorffennodd y cyfarfod 3.20.

CYFARFOD NESAF: 10.30 - 23 TACHWEDD 2018 yng Ngholeg Y Bedyddwyr, Heol Richmond